CROESO

Mae'r gwaith wedi mynd rhagddo'n gyflym dros y misoedd diwethaf gyda grwpiau o athrawon yn gweithio ar ddyluniad lefel uchel o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) fydd yn greiddiol i'r cwricwlwm newydd. Mae'r grwpiau wedi chwilio am arferion gorau ac arbenigedd ac ar yr un pryd wedi gwrando ar randdeiliaid a dadlau ynghylch y ffordd orau o gadw at y Pedwar Diben a argymhellwyd gan yr Athro Graham Donaldson. Mae Arloeswyr Dysgu Proffesiynol bellach wedi'u hintegreiddio ag Arloeswyr y Cwricwlwm ac Arloeswyr Digidol er mwyn sicrhau bod cyfleoedd i ddatblygu athrawon yn cyd-fynd â gofynion y cwricwlwm.
Yn y rhifyn yma:

- Datblygu Meysydd Dysgu a Phrofiad - Crynodebau a Chyfweliadau Fideo
- Cynhadledd Gweithio 10/11 Gorffennaf - gwylio sesiynau allweddol o'r digwyddiad
- Diwygio Cymwysterau yn gysylltiedig â'r Cwricwlwm newydd - Datganiad i'r Wasg
- Fframwaith Cymhwysedd Digidol - offer newydd
- Y Diweddaraf am Ddysgu Proffesiynol: Ysgolion Hunanwella
- Y Rhwydwaith Cenedlaethol er Rhagoriaeth mewn Mathemateg - lansiad
- Cyhoeddi adolygiad o Estyn
- Y Diweddaraf am y Blog!

Datblygu Meysydd Dysgu a Phrofiad - Crynodebau a Chyfweliadau Fideo

Mae proses gwella ansawdd gydag arbenigwyr allanol bellach yn cael ei chynnal ar y strwythurau cynnar a ddatblygwyd gan y grwpiau Meysydd Dysgu a Phrofiad. Yn dibynnu ar y canlyniadau, bydd y gwaith datblygu manylach yn dechrau yn nhymor yr hydref.

Mae pob crynodeb yn cynnwys safbwyntiau ar y canlynol: sut mae'r Meysydd Dysgu a Phrofiad yn hyrwyddo'r pedwar diben; cwmpas a ffiniau; y ffordd orau o gyflwyno'r gwahanol bynciau ac / neu elfennau cydrannol y Meysydd Dysgu a Phrofiad; a sylwebaeth ar y lefelau tybiedig o fanylder drwy'r holl Feysydd Dysgu a Phrofiad, a'r sail resymegol ar gyfer hynny.

Mae'r crynodebau oll wedi'u cyfuno mewn un adroddiad, ond gall darllenwyr sydd â diddordeb mewn Maes Dysgu a Phrofiad penodol sgrolio i lawr drwy'r rhestr sy'n ymddangos yn y drefn hon: Y Celfyddydau Mynegiannol; Iechyd a Lles; Y Dyniaethau; Llythrennedd, Ieithoedd a Chyfathrebu; Mathemateg a Rhifedd; Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Crynodebau

Gellir gweld cyfweliadau byr lle mae cynrychiolwyr y Meysydd Dysgu a Phrofiad yn siarad am y gwaith, y cynnydd hyd yma, a'r effaith y mae eisoes yn ei gael ar Blog Cwricwlwm Cymru

Yn ôl i'r brig

Cynhadledd Gweithio 10/11 Gorffennaf - gwylio sesiynau allweddol o'r digwyddiad

Ymunodd dau gant o athrawon â Chonsortia, Estyn a Chymwysterau Cymru yn Llandudno ar 10 ac 11 Gorffennaf i rannu cynnydd, i ddod â'r prif themâu ynghyd a chynllunio'r camau nesaf i ddatblygu'r Cwricwlwm Cymru sydd ar ddod - cynnwys manwl y Meysydd Dysgu a Phrofiad. Ymhlith y prif gyflwyniadau a gafwyd yn y digwydd, yr oedd trosolwg o gynnydd, cyfeiriad nesaf y gwaith diwygio cymwysterau, ysgolion fel sefydliadau dysgu, dysgu proffesiynol, datblygu adnoddau dwyieithog a'r camau nesaf ar gyfer datblygu'r cwricwlwm. Cafodd y prif gyflwyniadau eu ffrydio'n fyw dros y we, gan ddenu bron 200 o wylwyr ar y diwrnod cyntaf, ac mae'r fideos yn dal ar gael - gellir eu gwylio yma https://www.pscp.tv/WG_Education

Yn ôl i'r brig

Diwygio Cymwysterau yn gysylltiedig â'r Cwricwlwm newydd - Datganiad i'r Wasg

Gallwch hefyd weld datganiad i'r wasg a gyhoeddwyd gan Gwricwlwm Cymru yn dilyn y gynhadledd http://qualificationswales.org/news/110717-pioneer-schools-press-release/?lang=cy&

Yn ôl i'r brig

Fframwaith Cymhwysedd Digidol - offer newydd

Mae dau offeryn wedi cael eu darparu'r tymor hwn er mwyn helpu ysgolion i weithredu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol. Mae Offeryn Mapio'r Cwricwlwm yn helpu i fapio arferion cyfredol yn erbyn y fframwaith, er mwyn canfod meysydd arfer da neu fylchau mewn darpariaeth. Mae'r Offeryn Anghenion Dysgu Proffesiynol yn helpu ymarferwyr i nodi pa agweddau y maent eisoes yn hyderus yn eu cylch a pha agweddau sydd angen eu datblygu ymhellach yn eu tyb hwy.

Yn ôl i'r brig

Y diweddaraf am Ddysgu Proffesiynol: Ysgolion fel Sefydliadau Dysgu.

Mae ysgolion arloesi Dysgu Proffesiynol wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth á'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yn rhan o astudiaeth ryngwladol i '*ddatblygu ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu*' (SLO). Mae'r dull hwn yn rhan allweddol o'r ymdrech i ddiwygio addysg yng Nghymru, gan anelu i roi hwb i'r capasiti arloesi torfol, y tu mewn a'r tu allan i'r system.

Fel gwlad fach, mae'n hanfodol inni gyfuno ein hadnoddau a'n harbenigedd a chydweithio yn rhan o system sy'n hunan-wella i gefnogi a herio'r naill a'r llall. Bydd y model SLO yn cyfrannu at hunanwerthusiadau ysgolion, ac yn meithrin diwylliant dysgu ffyniannus a phroffesiynol er mwyn galluogi staff i gyd-ddysgu yn barhaus i arloesi eu hymarfer.

Yn dilyn cynlluniau peilot tymor yr haf, mae gwaith ar y gweill gyda rhanbarthau consortiwm, Estyn ac OECD i ddatblygu Strategaeth Weithredu ehangach ar gyfer SLO i gefnogi a galluogi'r holl ysgolion i ganolbwyntio ar y daith tuag at ddod yn sefydliad dysgu effeithiol. Mae lansiad SLO ffurfiol wedi'i drefnu yn ystod Tymor yr Hydref.

Cynhadledd Gweithio 10/11 Gorffennaf - gwylio sesiynau SLO o ail ddiwrnod y digwyddiad

Yn ôl i'r brig

Y Rhwydwaith Cenedlaethol er Rhagoriaeth mewn Mathemateg

Lansiodd Ysgrifennydd y Cabinet y Rhwydwaith Cenedlaethol er Rhagoriaeth mewn Mathemateg (RhCRhM) mewn ysgol uwchradd yng Nghaerdydd ddydd Gwener 14 Gorffennaf.
http://gov.wales/newsroom/educationandskills/2017/drive-to-improve-maths-in-schools-launched/?skip=1&lang=cy

Bydd gan y rhwydwaith ran allweddol yng nghenhadaeth genedlaethol Ysgrifennydd y Cabinet i godi safonau mewn ysgolion yng Nghymru. Drwy'r rhwydwaith, bydd ysgolion, colegau, prifysgolion a'r pedwar consortiwm addysg rhanbarthol yn cydweithio i wella dysgu ac addysgu mathemateg a rhifedd yng Nghymru, i gefnogi datblygiadau'n gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd.

Cafodd y parth RhCRhM ar Hwb hefyd ei lansio, ac y mae bellach yn fyw:
http://hwb.wales.gov.uk/nnem

Yn ôl i'r brig

Cyhoeddi adolygiad o Estyn

Ar 4 Gorffennaf, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams, a'r Prif Arolygydd, Meilyr Rowlands, y byddai adolygiad annibynnol yn cael ei gynnal o rôl Estyn wrth gefnogi'r broses o ddiwygio addysg.
https://www.estyn.llyw.cymru/newyddion/ymgyrch-i-wella-addysg-yw-nod-adolygiad-o-rol-estyn

Yn ôl i'r brig

Y Diweddaraf am y Blog!

Yn ddiweddar ar Blog Cwricwlwm Cymru, cafwyd barn disgybl ynghylch y cwricwlwm sydd ar ddod (cyfraniad cwbl annibynnol!), post gan yr Athro Donaldson ynglŷn â'r modd y mae Cymru ar y blaen ym maes diwygio addysg, a hanes y naill ysgol yn helpu ysgol arall i weithredu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol. Bob dydd bellach, ceir 100 o ymwelwyr â'r blog a bydd ei dudalennau'n cael eu gweld 215 o weithiau (Gorffennaf '17) ar gyfartaledd. Mae'r blog yn ennill ei blwyf fel ffynhonnell wych o farn a'r wybodaeth ddiweddaraf. Ewch i gael golwg!

Yn ôl i'r brig

Diolch yn fawr.

Dilynwch ni yn @LIC_Addysg

Aildrydarwch a rhannwch ein hashnodau #cwricwlwmigymru #cymhwysedddigidol

Hoffwch ni a'n dilyn ar Addysg Cymru

Yn ôl i'r brig